# CDLl2 Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd
## 2018 - 2033

## Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol:
## Crynodeb Annhechnegol

## Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir
## 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123**

# Contents

1. Cyflwyniad 1

2. Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 1

3. Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol 2

4. Datblygu Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 5

5. Nodi cynlluniau, rhaglenni eraill perthnasol ac amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 5

6. Crynhoi Data Sylfaenol 5

7. Nodi Materion Cynaliadwyedd Allweddol 5

8. Fframwaith Drafft yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 6

9. Ymgynghori Blaenorol 6

10. Datblygu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol 7

11. Asesu Cysondeb Amcan CDLl 2 yn erbyn Amcanion Cynaliadwyedd yr AC/AAS 8

12. Asesiad o Bolisïau Strategol y CDLl 11

13. Mesurau Lliniaru 13

14. Monitro Effeithiau'r Cynllun 13

15. Sylwadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 14

16. Mabwysiadu'r Cynllun 15

# 1. Cyflwyniad

1.1 Y ddogfen hon yw Crynodeb Annhechnegol Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol Cynllun Datblygu Lleol newydd Ceredigion (2018-2033) . Mae'n egluro sut mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Strategaeth a Ffefrir.

# 2. Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

2.1 Daeth adroddiad yr adolygiad i'r casgliad bod llawer o CDLl 1 yn addas i'r diben, bu'r rhan fwyaf o'r polisïau a hierarchaeth yr aneddiadau, dros gyfnod CDLl 1, yn ddefnyddiol ac yn gadarn. Yr hyn oedd angen ei newid oedd cydnabod y newidiadau i bolisïau cenedlaethol, a materion yn ymwneud â datblygu tai yn y mannau iawn. Arweiniodd hyn at gynhyrchu papurau testun ar amryw o themâu allweddol a amlygwyd yn adroddiad yr adolygiad. Dangosodd y papurau testun y sylfaen tystiolaeth a'r newidiadau i bolisïau lleol a chenedlaethol sy'n arwain at yr angen i wneud newidiadau i'r cynllun. Mae'r papurau testun wedi cynnig amryw o newidiadau bach a mawr, neu ddim newidiadau i strategaeth a pholisïau CDLl 2, gyda mwyafrif polisïau a hierarchaeth CDLl 1 yn cael eu dwyn ymlaen - gan fynd i'r afael â'r materion hynny a amlygwyd fel ffaeleddau yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ac adroddiad yr Adolygiad yn unig.

2.2 Felly, o ystyried bod llawer o faterion allweddol, amcanion, strategaeth, hierarchaeth a pholisïau'r CDLl presennol eisoes wedi'u hasesu dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd /Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) (Cyngor Sir Ceredigion), nid yw'r AC/AAS hwn yn bwriadu ail-edrych ar y penderfyniadau hynny a wnaed eisoes, sydd wedi llwyddo i atal, lleihau, a hyd y bo modd, gwneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol ar yr amgylchedd, sy'n cael eu dwyn ymlaen i CDLl 2. Nid yw cyd-destun a goblygiadau cynaladwyedd y penderfyniadau hyn wedi newid.

2.3 Fodd bynnag, lle cynigiwyd newidiadau o CDLl 1 i CDLl 2, bydd yr AC/AAS yn adolygu pob un o'r rhain. Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol, mae CDLl 2 yn cynnig newidiadau i'r weledigaeth, amcan CDLl (rhif 4) , a newidiadau i'r polisïau strategol canlynol – S01, S02, S03, S04, S05, yn ogystal â chreu un Polisi Strategol newydd, sef Polisi strategol y Gymraeg, S06.

2.4 I grynhoi, mae'r prif newidiadau i bolisïau'r strategaeth yn cynnig symud i ffwrdd o ddatblygu nifer cyfyngedig o dai ar gyfer y farchnad agored ar draws pob annedd cysylltiedig, i ddull sy'n canolbwyntio ar adeiladu tai ar gyfer y farchnad agored mewn aneddiadau sydd â llwybrau teithio llesol a/neu fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd (a ddiffinnir fel un sy'n rhedeg yn ystod oriau gwaith arferol, gyda siwrnai sy'n para dim mwy na 30 munud i Ganolfan Gwasanaethau Trefol). Mae'r rhain wedi'u categoreiddio fel Aneddiadau Mawr Cysylltiedig ac Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy, yn dibynnu ar eu hygyrchedd a'u maint. Y tu allan i'r aneddiadau hyn, dim ond datblygiadau sy'n unol â'r polisi cenedlaethol a ganiateir.

2.5 Nid y cynllun drafft llawn yw'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl 2, ond mae'n gosod y materion allweddol, ynghyd â chynigion bras y Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Mae'n cynnwys y Weledigaeth arfaethedig, y Strategaeth a Ffefrir, a Pholisïau Strategol. Mae'n dangos sut y bwriedir mynd i'r afael â materion a thueddiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar Geredigion. Mae'r strategaeth yn dangos sut y bwriedir cwrdd ag anghenion datblygu'r ardal, gan gynnwys lleoliadau bras posib ar gyfer tai newydd a chyflogaeth.

## 3. Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol


3.1 Pwrpas Arfarniad o Gynaliadwyedd yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy, drwy sicrhau gwell integreiddiad o ystyriaethau cynaliadwyedd wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau datblygu tai. Dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio

a Phrynu Gorfodol 2004, mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ofynnol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses ailadroddol a gynhelir wrth fynd ati i baratoi'r Cynllun, sy'n nodi i ba raddau y bydd gweithredu'r Cynllun yn cwrdd â'r amcanion economaidd, amgylchedd a chymdeithasol sy'n diffinio datblygu cynaliadwy.

3.2 Dylai Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol fel bo'n ofynnol dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Bydd Asesiad Amgylcheddol Strategol yn sicrhau bod CDLl 2 yn nodi ac yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n deillio o'r cynigion; gan gynnwys cynigion amgen, ac yn cynnig mesurau i liniaru unrhyw effeithiau andwyol. Bydd angen monitro unrhyw effeithiau arwyddocaol unwaith bod CDLl 2 ar waith.

3.3 Rhaid i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun ar yr agweddau canlynol o'r amgylchedd, yn unol â rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol: Aer, Bioamrywiaeth a Fflora a Ffawna, Treftadaeth Ddiwylliannol, Iechyd Dynol, y Dirwedd, Asedau Materol, y Boblogaeth, Dŵr, Pridd, Yr Hinsawdd a'r gydberthynas rhyngddyn nhw.

3.4 Bodlonir gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol drwy un broses werthuso, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd yr AC/AAS o CDLl 2 yn cynnwys pum cam, a amlinellir isod:




**Ffigur 1**

**Diagram o brif gamau'r broses AC/AAS. Mae cam yr Adroddiad AC (y cam presennol) wedi'i liwio'n llwyd.**

## 4. Datblygu Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

4.1 Ymgymerwyd â'r broses a'r tasgau canlynol er mwyn helpu i baratoi'r Adroddiad Cwmpasu.

## 5. Nodi cynlluniau, rhaglenni eraill perthnasol ac amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

5.1 Roedd y cam cyntaf yn cynnwys dadansoddi cynlluniau a rhaglenni perthnasol ar lefel Ewropeaidd, Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol, er mwyn nodi materion perthnasol wrth baratoi'r CDLl (Atodiad 2 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol).

## 6. Crynhoi Data Sylfaenol

6.1 Cyflwynir cymeriadaeth amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sylfaenol ar gyfer Ceredigion gan ddefnyddio'r dull papurau testun a ddefnyddir yn yr Adroddiad Cwmpasu, sy'n ymgorffori newidiadau a gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd ers yr ymgynghoriad ar yr adroddiad hwnnw. Wrth i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fynd rhagddo, gan asesu'r cynllun a'r monitro, mi fydd angen mireinio'r data a'r set wybodaeth sylfaenol. Bydd angen nodi a/neu gaffael data a gwybodaeth fwy meintiol a manwl-gywir, sy'n berthnasol i'r Amcanion Cynaladwyedd.

## 7. Nodi Materion Cynaliadwyedd Allweddol

7.1 Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi materion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i Geredigion, a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcanion cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y Cyngor Sir. Am y set lawn o faterion, gweler Atodiad 1 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol.

## 8. Fframwaith Drafft yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

8.1 Roedd y Fframwaith hwn yn ymgorffori'r wybodaeth sylfaenol allweddol a materion cynaliadwyedd, gan greu un arf systematig o amcanion a fyddai'n caniatáu dadansoddi effeithiau cynaliadwyedd polisïau a chynigion y CDLl newydd.

8.2 Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Gweithgor Cynaliadwyedd i ddarparu gwybodaeth a chyngor yn ystod y broses o gynhyrchu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. (AC/AAS)

8.3 Roedd amcanion y cyfarfodydd fel a ganlyn:

- cynorthwyo i ddatblygu methodoleg ar gyfer yr AC/AAS;
- cynorthwyo i nodi materion a chyfleoedd cynaliadwy ac amgylcheddol addas (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, llywodraethu da, a defnydd cyfrifol o wyddoniaeth);
- cynorthwyo i nodi a meintioli amcanion cynaliadwyedd a monitro dangosyddion;
- trefnwyd y rhai a wahoddwyd i'r cyfarfod i geisio sicrhau cydbwysedd o gyfraniadau oedd yn adlewyrchu Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r pum ffordd o weithio i gyflawni'r nodau hyn..
- rhestrir y sefydliadau oedd yn rhan o'r grŵp yn Atodiad 4 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol.
- darparu arweiniad ar asesu'r CDLl newydd mewn perthynas ag amcanion a dangosyddion yr AC/AAS.

## 9. Ymgynghori Blaenorol

9.1 Mae ymgynghori'n ofyniad gorfodol yn ystod gwahanol gamau'r broses AC/AAS. Dan Reoliadau AAS Cymru, rhaid ymgynghori â'r ddau gorff ymgynghori (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) ynghylch cwmpas a lefel manylder yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol

(y cyfeirir ato yma fel Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol). Anfonwyd yr Adroddiad Cwmpasu at y cyrff ymgynghori yn unol â’r gofynion ymgynghori ar gyfer y cam hwn o’r AAS. Er mwyn gwneud y broses yn un mor gynhwysol â phosib, cafodd y cyhoedd a’r sefydliadau’n gyffredinol gyfle cyfartal i wneud sylwadau ar y ddogfen Gwmpasu. Yn unol â Rheoliadau AAS Cymru, pennwyd cyfnod ymgynghori o bum wythnos ar gyfer y cam cwmpasu.

## 10. Datblygu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol

10.1 Ar ôl ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu, ystyriwyd yr holl sylwadau, a dechreuodd yr ALl ar y broses o adolygu’r holl waith a wnaed hyd hynny ar yr AC/AAS. Yn bennaf, adolygwyd cynlluniau a rhaglenni ychwanegol, ystyriwyd gwybodaeth sylfaenol newydd, diweddarwyd materion allweddol, a diwygiwyd Ffamwaith Amcanion Cynaliadwyedd a dangosyddion yr AC fel rhan o’r gwaith ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae’r set derfynol o amcanion cynaliadwyedd a ddefnyddiwyd i asesu’r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd wedi’u hamlinellu yn Nhabl 2.

**Tabl 2. Prif Amcanion Cynaliadwyedd AC/AAS Ceredigion**

| Amcan rhif | Amcan Cynaliadwyedd |
|---|---|
| 1a | Lleihau achosion a rheoli effeithiau’r newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys Newidiadau Arfordirol). |
| 1b | Sicrhau bod mesurau digonol yn eu lle i addasu i’r newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd. |
| 1c | Lleihau’r perygl o lifogydd. |
| 2a | Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd a’r mawn. |
| 2b | Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion. |
| 2c | Lleihau effeithiau andwyol defnydd o’r tir ar faint ac ansawdd adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. |
| 3a | Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. |

| Amcan rhif | Amcan Cynaliadwyedd |
|---|---|
| 3b | Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel sy’n ystyriol o’r amgylchedd. |
| 4a | Gwerthfawrogi, cadw a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys cysylltedd a chydnerthedd ecolegol, i wneud y mwyaf o wasanaethau’r ecosystem. |
| 5a | Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, hynodrwydd lleol, treftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion. |
| 6a | Cadw hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu bodloni. |
| 6b | Hyrwyddo datblygiad cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus. |
| 7a | Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gadw cymunedau’n iach. |
| 8a | Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd i greu cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy sy’n ystyriol o’r amgylchedd yng Ngheredigion. |
| 9 | Cynyddu cyfleoedd i adeiladu ar sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. |
| 10 | Gwarchod a hyrwyddo’r Gymraeg. |
| 11a | Lleihau’r angen i deithio/effaith teithio, a hybu defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol. |
| 11b | Gwella mynediad cymunedau at wasanaethau, a gwella cysylltedd er mwyn yr economi. |
| 12 | Hybu economi fywiog ac amrywiol. |

## 11. Asesu Cysondeb Amcan CDLl 2 yn erbyn Amcanion Cynaliadwyedd yr AC/AAS

11.1 Pennodd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl 1 18 o amcanion oedd yn ymateb i faterion penodol roedd y Cynllun am fynd i’r afael â nhw. Mae’r

amcanion hyn yn aros yr un fath ar gyfer CDLl 2, ar wahân i'r Amcan Twristiaeth (Amcan CDLl 4), a byddant yn helpu i gyflenwi Gweledigaeth CDLl 2 ac ymateb i'r materion a'r tueddiadau a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu a'r adolygiad cyffredinol o wybodaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylfaenol. Dim ond Amcan 4, ochr yn ochr â'r Weledigaeth ddiwygiedig a'r chwe Pholisi Strategol fydd yn cael eu hasesu, am fod y polisïau a'r amcanion eraill eisoes wedi'u hasesu dan yr AC/AAS ar gyfer CDLl 1.

11.2 Gosodir manylion Gweledigaeth ac Amcan CDLl 2 isod:

**Tabl 3. Gweledigaeth ac Amcan CDLl 2 Ceredigion**

| Amcan Rhif | Amcan CDLl |
|---|---|
| Gweledigaeth | Erbyn 2033, bydd Ceredigion yn sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol, y mae pobl yn dewis byw, astudio, gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw; sydd wedi ymrwymo i sicrhau cydnerthedd ei heconomi, diwylliant, treftadaeth, amgylchedd ac adnoddau naturiol, ac iechyd a lles.<br><br>Bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu datblygu cynaliadwy sydd:<br>Yn cwrdd ag anghenion tai, economaidd, seilwaith, cymunedol, addysgol, iechyd a lles.<br>Yn addasu ac ymateb yn bositif i heriau'r newid yn yr hinsawdd.<br>Yn cynorthwyo i atgyfnerthu'r Gymraeg.<br>Yn gwerthfawrogi'r amgylchedd adeiledig a naturiol, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwylliannol am eu gwerth cynhenid a'r cyfleoedd economaidd cysylltiedig.<br>Yn caniatáu i drigolion, busnesau a chymunedau sicrhau economi mwy amrywiol, blaengar a chydnerth er mwyn ffynnu a llwyddo. |
| | |
| 4 | Annog a hyrwyddo sector twristiaeth trwy'r flwyddyn sy'n gynaliadwy ac ystyriol o'r amgylchedd, drwy gynlluniau rheolaeth cyrchfan, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad sensitif asedau diwylliannol ac |

| Amcan Rhif | Amcan CDLl |
|---|---|
| | amgylcheddol ar draws Ceredigion, a gefnogir gan sylfaen llety da sy'n darparu ar gyfer pob marchnad ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ar gyfer bob tymor. |

11.3 Cafodd y weledigaeth ar gyfer y CDLl newydd ac Amcan rhif 4 eu hasesu am eu cysondeb yn erbyn Amcanion yr AC/AAS. Ceir crynodeb o'r arfarniad yn Adran 5 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol.

11.4 Cafodd Amcan CDLl 4 ei ddiwygio o CDLl 1 i adlewyrchu'r gorchmynion lles yn well; roedd hynny'n golygu newid ychydig ar y geiriad yn unig. Gwelir bod yr amcan yn gyffredinol gyson â'r Amcanion Cynaliadwyedd, gyda pheth ansicrwydd ynghylch yr effeithiau o ran yr amcanion cynaladwyedd mewn perthynas â'r Newid yn yr Hinsawdd, ac Ansawdd yr Aer, Dŵr a Phridd. Does dim anghysondeb rhwng yr amcan â'r amcanion Cynaliadwyedd.

11.5 Cafwyd bod y Weledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y CDLl newydd yn gyson â'r Amcanion Cynaliadwyedd, a'r unig ansicrwydd oedd cysondeb y Weledigaeth o ran lleihau'r angen i deithio.

| Asesiad o Arwyddocâd | Disgrifiad |
|---|---|
| ++ | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith bositif fawr ar ei ffurf gyfredol, oherwydd byddai'n datrys problem bresennol neu'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd. ARWYDDOCAOL |
| + | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith bositif fach. |
| ? | Mae effaith yr Amcan/Opsiwn yn ansicr. |
| 0 | Ni fyddai'r Amcan/Opsiwn yn cael unrhyw effeithiau rhagweladwy |
| - | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith andwyol fach. |
| -- | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith andwyol fawr oherwydd byddai'n dwysau problemau presennol yn sylweddol. Dylid ystyried hepgor yr opsiwn. ARWYDDOCAOL |

11.6 Dangosir y Dadansoddiad o Gysondeb ar gyfer asesu’r Polisïau Strategol yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd yn y tabl uchod.

## 12. Asesiad o Bolisïau Strategol y CDLl

12.1 Mae’r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl yn cynnwys chwe pholisi strategol drafft a luniwyd i helpu i gyflenwi’r strategaeth a ffefrir a mynd i’r afael â’r materion a nodwyd. Ni chynigiwyd unrhyw Safleoedd Strategol yn y CDLl newydd.

12.2 Cynhaliwyd arfarniad o’r polisïau hyn gan ddefnyddio’r Fframwaith AC a ddatblygwyd yn ystod proses Gwmpasu’r AC ac fe'u diweddarwyd wedi hynny. Cyflwynir yr arfarniad llawn yn Atodiad 3 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ar ffurf matrics, gydag un tabl ar gyfer pob Amcan AC/AAS.

12.3 Hefyd, darperir trosolwg cryno o ganlyniad yr AC, ynghyd ag argymhellion i liniaru a gwella lle bo angen a lle bo’n briodol.

12.4 Cafodd Polisïau Strategol CDLl 2 eu hasesu am eu heffeithiau tebygol mewn perthynas â’r Amcanion Cynaliadwyedd. Hynny yw, a yw’r camau angenrheidiol i sicrhau Polisïau Strategol y CDLl newydd yn debygol o helpu i sicrhau’r Amcan Cynaliadwyedd. Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd manwl o’r elfennau o fewn pob Polisi CDLl diwygiedig yn sylfaen i asesiad cyffredinol o Bolisïau Strategol y CDLl newydd mewn perthynas â phob un o’r Amcanion Cynaliadwyedd. Dangosir crynodeb o’r asesiad o Bolisïau Strategol a’r argymhellion yn nhabl 4.

| **Tabl 4 Arfarniad o Opsiynau Polisïau Strategol**<br><br>**Polisi** | 1a. Lleihau achosion a rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (newidiadau arfordirol) | 1b. Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru'r effeithiau | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Diogelu ansawdd a maint y pridd a'r mawn | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Gwarchod maint ac ansawdd adnoddau dŵr, mewndirol ac arfordirol | 3a. Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel sy'n ystyriol o'r amgylchedd | 4a. Gwerthfawrogi, cadw a gwella bioamrywiaeth a gwneud y mwyaf o wasanaethau'r ecosystem | 5a. Gwerthfawrogi, cadw a gwella'r dirwedd, yr amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth ddiwylliannol | 6a. Cadw hunaniaeth ddiwylliannol unigryw, ac ystyried y ddemograffeg newidiol | 6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel, ffordiadwy, hygyrch a chydlynus | 7a. Cadw cymunedau'n iach | 8a. Cyfleusterau twristiaeth a hamdden ac adloniant cynaliadwy sy'n ystyriol o'r amgylchedd | 9. Adeiladu'r sylfaen addysg a sgiliau | 10. Gwarchod a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru | 11a. Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy | 11b. Gwella mynediad at wasanaethau | 12. Annog economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | ++ | ++ | + | + | + | + | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | + | + |
| Strategaeth a Ffefrir | - | 0 | 0 | + | - | - | + | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | + | ++ |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | - | 0 | 0 | - | - | - | + | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ |
| Polisi S02: Datblygu o fewn CGTau | + | 0 | 0 | + | + | - | 0 | + | ? | ? | + | + | + | + | + | 0 | + | + | + |
| Polisi S03: Datblygu o fewn CGGau | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi S04: Datblygu o fewn Aneddiadau Cysylltiedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | ? | ? | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | - | - | ++ | ++ | + | 0 | 0 | + | + | + | + |
| Polisi S06: Cynllunio a'r iaith Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | ++ | 0 | 0 | + |

12.5 Yn gyffredinol, gwelir bod yr effeithiau a ragwelir o ganlyniad i weithredu Polisïau Strategol CDLl 2 yn gyson â’r Amcanion Cynaliadwyedd. Rhagwelir rhai effeithiau andwyol, sef y rhai sy’n gysylltiedig â datblygu tai a chyflogaeth newydd a'r cynnydd o ran gofynion tir a gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r datblygu newydd hwn. Am na wyddys beth yw lleoliadau penodol y datblygiadau newydd ar hyn o bryd, mae yna ansicrwydd ynghylch sut y bydd rhai polisïau’n effeithio ar nifer o’r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae rhai marciau cwestiwn hefyd ynghylch cysondeb yr amcanion, sy’n deillio o’r ffaith y gallai dilyn un o Bolisïau Strategol neu Amcan Cynaliadwyedd CDLl 2, heb ystyried y lleill, arwain at lwyddiant un ar draul un arall. Er enghraifft, gall yr amcanion o ran bodloni nodau tai a thwf economaidd yn sir arwain at effeithiau andwyol o ran y dirwedd a bioamrywiaeth os caniateir gormod o ddatblygu.

## 13. Mesurau Lliniaru

13.1 Mae gan y Strategaeth a Ffefrir amryw o effeithiau a ragwelir yn nhermau cynaliadwyedd. Drwy asesu’r polisïau mi daeth hi’n amlwg y gall rhai ohonynt arwain at effeithiau negyddol bach, yn bennaf oherwydd effaith y datblygiad ar yr amgylchedd. Mae mesurau lliniaru’n ymgorffori dulliau sy’n anelu at atal, leihau neu wneud iawn am yr effeithiau cynaliadwyedd andwyol a nodwyd. Mae’n bwysig hefyd sicrhau mesurau sy’n anelu at gynyddu effeithiau positif. Yn ystod yr asesiad, nodwyd mesurau lliniaru ar gyfer pob Polisi Strategol, ynghyd â’r effaith negyddol a ragwelir ar Amcan AC/AAS, gyda nifer o’r rhain wedi’u hadeiladu i’r polisïau eu hunain.

## 14. Monitro Effeithiau’r Cynllun

14.1 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd a Chyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn bod effeithiau cynaliadwyedd arwyddocaol gweithredu’r CDLl newydd yn cael eu monitro. Bydd y

broses hon o fonitro cynaliadwyedd, yn ei thro, yn ffurfio rhan o fframwaith monitro CDLl 2.

14.2 Bydd fframwaith monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd CDLl 2 yn seiliedig ar y dangosyddion a nodwyd i gefnogi'r Amcanion Cynaliadwyedd y mae CDLl 2 wedi'i asesu yn eu herbyn, er mwyn helpu i ddeall i ba raddau mae'r amcanion hyn yn cael eu cyflenwi. Ceir rhestr o ddangosyddion posib yn Atodiad 1 o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol, ochr yn ochr â'r amcanion a'r materion cynaliadwyedd. Ar yr adeg hon o'r broses mae'n rhy gynnar i ddatblygu fframwaith monitro am nad yw effeithiau gweithredu'r cynllun yn glir eto. Bydd hyn yn cael sylw yn ystod cam Adneuo CDLl 2, yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac fe'i cadarnheir ar adeg mabwysiadu. Ni fydd angen monitro'r holl ddangosyddion hyn, dim ond y rhai sydd fwyaf priodol i fonitro unrhyw effeithiau arwyddocaol a nodwyd yn ystod y prosesau asesu. Bydd y rhestr faith a geir yn Atodiad 1 felly'n cael ei chwtogi'n sylweddol wrth fynd ati i ddatblygu'r fframwaith monitro terfynol, a gyhoeddir yn Natganiad Mabwysiadu'r AC.

## 15. Sylwadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

15.1 Mae copïau o'r Crynodeb Annhechnegol ac Adroddiad llawn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor. Mae ffurflenni ar gael yma hefyd ar gyfer cyflwyno sylwadau, neu drwy ffonio 01545 572123.

15.2 Os hoffech chi wneud sylw am y Crynodeb Annhechnegol neu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ar gyfer y CDLl, anfonwch eich barn drwy e-bost, neu'n ysgrifenedig erbyn 12 canol dydd ar 12 Medi 2019 i:

Polisïau Cynllunio
Yr Economi ac Adfywio

Neuadd y Sir

Stryd y Farchnad
ABERAERON.
Ceredigion
SA46 0AT
Ffôn:01545 572123
E-bost: ldp@ceredigion.gov.uk

15.3 Pan fydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, bydd y sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol yn cael eu hystyried yn y CDLl 2 terfynol. Bydd polisïau manwl y CDLl 2 Adneuo ac unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r CDLl newydd yn cael eu hasesu a'u hadrodd mewn Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 16. Mabwysiadu'r Cynllun

16.1 Cyhoeddir Datganiad AAS unwaith bod y CDLl newydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion. Pwrpas y Datganiad hwn yw disgrifio: sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r cynllun; sut mae Adroddiadau AC wedi'u hystyried; sut mae'r safbwyntiau a fynegwyd wrth ymgynghori ar y cynllun a'r Adroddiad AC wedi cael eu hystyried; y rhesymau dros ddewis y cynllun a fabwysiadwyd, yng ngoleuni opsiynau amgen rhesymol; a'r mesurau a gymerir i fonitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol rhoi'r CDLl newydd ar waith.